

Eitem	Dyddiad
	15/09/2025
Teitl	Am
Diweddariad yr Is-grŵp Tlodi	Wybodaeth
Presennol	
Y Cynghorydd Catrin Davies - Aelod Cabinet a Hyrwyddwr Cydraddoldeb, CSC (Cadeirydd) Ann Ireland – Refeniw, Buddion ac Asesiadau Ariannol, CSC Carys Huntly - Cydraddoldeb a Chynhwysiant, CSC Hazel Lloyd-Lubran – CAVO Juliet Morris - Cyngor ar Bopeth Ceredigion Louisa Adams - Rhwydwaith Canolfannau Teuluol Ceredigion, Plant Dewi Mark Gleeson - Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, CSC Sara Rees – Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Hywel Dda Taniya Jones Jarrams - Gwasanaethau Brysbennu ac Asesu Integredig, CSC Timothy Bray – Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Wrth Gefn, CSC Rob Starr - Perfformiad ac Ymchwil, CSC Sarah Griffiths, Gofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol, CSC Mari Jefferis, Rhianta a Chymorth i Deuluoedd, CSC Meinir Paske, Cymorth Busnes Gofal Plant, CSC	
Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod yr is-grŵp: 22/07/2025	
1. Cydlynnydd Rhwydwaith Canolfannau Teuluol Plant Dewi - cyflwyniad. Mae holl wasanaethau Canolfan Deuluol Ceredigion yn rhad ac am ddim. Maent yn cynnig cyrsiau i gefnogi teuluoedd - GroBrain, Grwpiau Babanod, Ioga Babanod ac ati. Maent hefyd yn cynnig cynllun 'Bwndel Babi'. Mae nifer y bwndeli babi a ddarperir i deuluoedd eisoes wedi cynyddu eleni, yn ôl pob tebyg oherwydd incwm isel, costau byw cynyddol ac iechyd meddwl. Bu cynnydd mewn teuluoedd sy'n defnyddio peiriannau golchi mewn canolfannau teuluol ar gyfer eu golchi dillad personol eu hunain. Credir mai incwm isel a chostau byw yw achos hyn. Mae llawer o'r canolfannau ar agor dim ond 3 diwrnod yr wythnos oherwydd materion ariannu, ond mae angen i'r canolfannau fod yn hygyrch 5 diwrnod yr wythnos. Camau gweithredu: LA a CH i drafod cynlluniau cyllido ar gyfer dodrefn a nwyddau gwyn. LA a HL-L i drafod cyllid a syniadau ar gyfer ffrydiau incwm ar gyfer Plant Dewi. LA a JM i drafod cyfeirio at Gyngor ar Bopeth.	

2. Adroddiad Prydau Ysgol am Ddim (PYD) a Grant Hanfodol Ysgol (GHY)

Blwyddyn Academaidd	Rhifau PYD	Rhifau GHY	Swm GHYa dalwyd
2022/23	1,897	1,463	£339,050*
2023/24	1,895	1,330	£175,950
2024/25	1,791	1,268	£166,300

* Cafwyd cynnydd yn y taliad GHY fesul disgybl yn 2022-23 (£225 fesul disgybl dan 11 oed a £300 fesul disgybl 11+ oed). Dychwelodd i £125 fesul disgybl dan 11 oed a £200 y disgybl 11+ oed o 2023-24 hyd heddiw.

Mae llywodraeth y DU wedi dileu'r trothwy ar gyfer GHY. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un sy'n derbyn Credyd Cynhwysol dderbyn GHY. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn eu hesiampl.

Nodir bod tîm Refeniw, Budd-daliadau ac Asesiadau Ariannol y Cyngor yn ymdrin â cheisiadau GHY, gostyngiad treth y Cyngor a PYD. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo grantiau perthnasol i deuluoedd cymwys.

Cam gweithredu: CH ac AI i drafod hyrwyddo GHY ymhellach.

3. Tlodi Gwledig – canfyddiadau interim.

Roedd adroddiad Rob Starr yn cynnwys y canlynol:

- Yn ôl Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, mae tystiolaeth gynyddol bod tlodi yn broblem barhaus a chynyddol mewn cymunedau gwledig yng Nghymru.
- Mae 28% o ACEHI (Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is) Ceredigion yn y '10% mwyaf difreintiedig' ym Maes Tai MALIC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).
- Mae amser teithio Ceredigion i gael mynediad at wasanaethau ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru (mae Powys yn uwch).
- Mae Ceredigion wedi profi pris cyfartalog uwch ar gyfer pob math o eiddo na chyfartaledd Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf.
- Mae costau rhentu tai preifat wedi cynyddu'n sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf, ynghyd â gweddill Cymru.
- Mae llawer llai o aelwydydd yng Ngheredigion ar nwy prif gyflenwad o'i gymharu â gweddill Cymru.
- Mae cyflogau yn ôl man preswyllo yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae Ceredigion yn dal y tu ôl i gyfartaledd Cymru o ran Cwmpas Band Eang.

Casgliad: mae dadl gref y dylai awdurdodau gwledig gael mwy o gefnogaeth oherwydd yr heriau unigryw yr ydym yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r heriau yn parhau i fod mor berthnasol heddiw ag y maent ar unrhyw adeg. Mae tystiolaeth o rai agweddau ar dlodi gwledig a thlodi mewn gwaith wedi'u cuddio o fewn y MALIC. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu cynnwys yn Asesiad o Lesiant Lleol nesaf y BGC.

Cam gweithredu: yr adroddiad Tlodi Gwledig i'w gylchredeg pan fydd wedi'i gwblhau.

4. Cysylltu Cymunedau i hybu lles ariannol.

Daeth y prosiect 6 mis hwn i ben ym mis Mehefin 2025. Roedd yn cynnwys ymweliadau â Mannau Croeso Cynnes a Banciau Bwyd a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu 'Gadewch i ni Siarad'. Y nod oedd gwella cyfathrebu a chyd-gynhyrchu rhwng aelodau is-grŵp Tlodi a grwpiau cymunedol.

Canfyddiadau: mae llawer o'r grwpiau cymunedol yn cynnig gwybodaeth am gymorth sy'n gysylltiedig â thlodi, ond mae llawer o wirfoddolwyr yn nerfus i drafod materion ariannol gyda defnyddwyr gwasanaeth. Arweiniodd y prosiect at yr argymhellion canlynol:

- Cynnal ac ehangu ymgysylltiad cymunedol
- Gwella hyder a hyfforddiant gwirfoddolwyr
- Datblygu systemau cydweithredol hirdymor
- Mynd i'r afael â defnydd a stigma banciau bwyd
- Cefnogi ymgysylltu ieuenctid

5. Bwletinaw Costau Byw Misol

Trafododd yr aelodau bynciau ar gyfer bwletinaw yn y dyfodol. Awgrymwyd y canlynol: Cyrsiau Lluosi; Grant Hanfodol Ysgolion; grantiau a chymorth i helpu pobl yn ystod y gaeaf sydd wedi dioddef profedigaeth neu salwch difrifol; hyrwyddo digwyddiadau 'Technoleg i Bawb' sydd ar ddod i helpu i gynyddu sgiliau digidol yn y gymuned.

Camau gweithredu: aelodau i gysylltu â CH gyda syniadau ar gyfer bwletinaw yn y dyfodol. CH i gysylltu â SG i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i weithio gyda Chysylltwyr Cymunedol.

6. Darparwyr Cyngor Ynni – diweddariad.

Mae'r darparwyr cyngor ynni wedi ymrwymo i dri addewid:

- Cofrestri gyda Rwydwaith Gwybodaeth a Chyngor Ceredigion - *wedi'i wneud*.
- Gweithio tuag at greu taflen neu dempled i hysbysu'r cyhoedd – *ar y gweill*.
- Ymrwymo i fynychu digwyddiadau personol fel grŵp - *mae sesiynau cyngor ynni ar y cyd wedi'u trefnu yn Aberystwyth, Aberteifi ac Aberaeron*.

Cam gweithredu: CH i barhau i weithio gyda'r Darparwyr Cyngor Ynni i sicrhau gwasanaeth cydgysylltiedig ledled Ceredigion.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 21 Hydref 2025 10yb – 12yp

Swyddog Adrodd: Cathryn Morgan, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Cyngor Sir Ceredigion